# Cofnodion Cyfarfod y Gweithgor Newid Hinsawdd a'r Argyfwng Ecolegol

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | : 10/11/2023 |
| **Amser** | 14.00 tan 16.00 |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Yn bresennol** | Cyng Barry Mellor (Cadeirydd) (BM), Cyng Bobby Feeley (BF), Cyng Jonathan B. Harland (JBH), Cyng Martyn Hogg (MH), Cyng Delyth A. Jones (DAJ),<br>Cyng Arwel Roberts (AR), Cyng Michelle Walker (MW), Cyng Peter Scott (PS), Cyng James Elson (JE). |
| **Ymddiheuriadau** | Cyng Paul Keddie (PK), Cyng Arwel Roberts (AR) |
| **Hefyd yn bresennol** | Swyddogion Cefnogi: Gary Williams (GW), Helen Vaughan-Evans (HVE), Emlyn Jones (EJ), Paul Jackson (PJ), Tim Towers (TM), Angela Loftus (AL), Bethan Morris (BMX), Martin Griffiths (MG), Aileen Charteris (AC) |

## 1. Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd BM, y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a diolchodd am eu hamser.

Nodwyd yr ymddiheuriadau.

## 2. Cofnodion/ camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf a materion yn codi (Cadeirydd)

Archwiliwyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf (25/07/2022) ac adolygwyd y tabl Camau Gweithredu.  Trafodwyd y ddau gam gweithredu parhaus yn eithaf manwl:

1. Esboniodd HVE fod bwlch rhwng cyflymder y newidiadau sydd eu hangen ac amserlenni cyfarfod Net Zero. Roedd y grŵp wedi penderfynu mewn cyfarfod 25/07/23 i gadw targedau fel ag y maen nhw ond i drafod sut y bydd hynny'n cael ei gyflwyno. Trafododd HVE sut mae'n debygol y bydd data'n cael ei gyflwyno. ***Penderfynodd y grŵp i gadw targed Net Sero fel y mae.***
2. Adroddodd HVE ei bod wedi siarad â Paul Mead, Rheolwr Rheoli Datblygu, ar gefnogaeth sydd ei hangen ar y Cynghorwyr ar benderfynu ar geisiadau cynllunio mewn perthynas â'r agenda hon. Adborth oedd nad oes angen cefnogaeth bellach ar aelodau pan mai DCC yw'r awdurdod penderfynu ar gynllunio. Fodd bynnag, mae angen mwy o eglurder a chefnogaeth ar fynegi materion amgylcheddol lle mae DCC yn ymgynghorai mewn perthynas â chynllunio (e.e. ar gynllun o arwyddocâd cenedlaethol).

<u>Cardiau Sgorio Hinsawdd</u>
Rhoddodd LWJ ddiweddariad ar gardiau sgorio hinsawdd y cyngor -*gweler y sleidiau a ddosbarthwyd gyda’r cofnodion*

Eglurodd LWJ a HVE y gallai cywirdeb y cardiau sgôr fod yn broblem- dim ond gwybodaeth yn y parth cyhoeddus er enghraifft oedd yn cael ei ddefnyddio. Nododd HVE fod Awdurdodau Lleol eraill wedi bod yn pryderu efallai na fydd y cardiau sgôr yn adlewyrchiad cywir o'r gwaith yr oeddent yn ei wneud.

Teimlwyd bod llawer o lwyddiannau y gallem fod yn falch ohonynt ond y gellir gwneud mwy o waith mewn ardaloedd lle cawsom sgoriau is gyda tharged o ddod yn un o brif Awdurdodau Lleol Cymru yng nghardiau sgôr hinsawdd y cyngor y flwyddyn nesaf. Penderfynodd y grŵp y dylid osgoi datganiad penodol i'r wasg ond gellid defnyddio tynnu sylw at y ffaith ein bod wedi sgorio'n dda ar ymgysylltu â'r cyhoedd wrth roi cyhoeddusrwydd i'n digwyddiad ymgysylltu gyda'r nos.

***Cam Gweithredu AC i ddadansoddi agweddau o ganlyniadau cardiau sgorio hinsawdd y cyngor a pha wybodaeth a gyfrannodd at y sgorio i fwydo i adolygiad y strategaeth.***

## 3. Diweddariad Adolygiad Strategol (Liz Wilcox-Jones a Helen Vaughan-Evans)

Adolygu ac adnewyddu'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2023/24

Adolygu tystiolaeth a mewnbwn
Cyflwynodd LWJ sleidiau ar adolygiad y strategaeth

Dyma'r prif bwyntiau:

- Dyma adolygiad cyntaf y Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol a bydd yn cael ei adolygu bob 3 blynedd (hyd at 2030).
- Mae cynnydd ers 25 Gorffennaf wedi cynnwys gweithdai gwasanaeth sydd wedi dechrau diweddaru ac adolygu gweithgareddau gwasanaeth/ prosiectau/ cynlluniau/ strategaethau presennol ayyb wedi alinio gyda'r strategaeth, ynghyd â thrafod syniadau newydd. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal dydd Llun, 13 Tachwedd rhwng 6 - 8 pm - mae'r cyhoedd a'r holl Gynghorwyr wedi cael eu gwahodd.
- Mae amserlenni cyfredol disgwyliedig yn cynnwys:
  - Adolygu targedau a mesur gydag arweinwyr ffrwd waith erbyn diwedd mis Rhagfyr.
  - Diweddaru dogfen strategaeth a WIA erbyn diwedd mis Ionawr 2024.
  - Dechrau ymgysylltiad Grŵp Ardal Aelodau ym mis Chwefror/ Mawrth 2024.
  - Lansio arolwg cyhoeddus o strategaeth ddiwygiedig ym mis Mawrth/ Ebrill 2024.
  - Mynychu pwyllgorau gwneud penderfyniad yn yr haf gyda'r bwriad o fabwysiadu'r strategaeth newydd erbyn mis Gorffennaf 2024.

Aeth HVE drwy'r strwythur dogfen strategaeth ddiwygiedig gyda'r grŵp. Mae'r ychwanegiad o ddefnyddio ein dylanwad fel cyngor ar edrych ar allyriadau ardal, adfer natur a gwydnwch risg hinsawdd. Does dim targedau penodol ar gyfer y ddwy ardal newydd hon. Bydd data wedi'i ddiweddaru o'r gweithdai ac ymgynghoriad yn cael eu cynnwys o fewn y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol gan weithio o linell sylfaen a lle'r ydym eisiau cyrraedd.

Gofynnodd MH os dylem edrych i fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy gan fod awdurdodau lleol eraill yn gwneud hyn. Gallai prynu cyfrandaliadau roi ynni rhatach a gall fuddsoddi yn awr arbed arian i ni. Hefyd gallwn fod yn sicr bod ein hynni yn Net Sero.
Esboniodd HVE, oherwydd materion cyllidebol, na allem fuddsoddi'n hawdd - byddai angen i ni fenthyca i fuddsoddi sy'n gwneud yr achos ariannol yn anodd.
Cytunodd MH nad yw benthyg i fuddsoddi yn briodol a gofynnodd a allwn ystyried ynni o dariff gwyrdd.
Cadarnhaodd HVE fod holl ddefnydd trydan DCC ar dystysgrif REGO tariff gwyrdd.
Eglurodd HVE bod y fethodoleg ar gyfer cyfrifo ein hôl troed carbon ddim yn ein caniatáu i hawlio allyriadau sero o’n defnydd ynni.

Cytunodd GW gyda HVE bod yr holl opsiynau angen eu hystyried, yn arbennig pan mae’n rhoi arbediad o ran cost i ni. Awgrymodd GW bod AJ (Swyddog Cyfathrebiadau Hinsawdd) yn hysbysu’r arbedion o ran costau i waith sydd yn amgylcheddol gyfeillgar.

<u>Digwyddiad Ymgynghoriad Cyhoeddus</u>

- Mae digwyddiad cyhoeddus wedi’i drefnu ar gyfer dydd Llun, 13 Tachwedd yn Neuadd y Dref Dinbych.
- Mae’r digwyddiad yn cael ei arwain gan Dr Alan Netherwood (Netherwood Sustainable Futures) a Dafydd Thomas (The Wellbeing Planner).
- Bydd adroddiad o’r adborth o’r digwyddiad yn cael ei ddarparu i fwydo i’r Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol.

## 4. Cynllunio (Angela Loftus a Bethan Morris)

Roedd AL a BMX, y Swyddogion Cynllunio yn bresennol a chyflwynwyd sut mae CSDd yn gwneud yr hyn a all i gefnogi camau lliniaru ac addasu newid hinsawdd yn ogystal â chamau i adfer natur wrth gynghori a phenderfynu ar geisiadau cynllunio ac o fewn y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

Eglurodd AL:

- Mae’r Cynllun Datblygu Lleol yn gwneud penderfyniadau ar gynllunio.
- Mae camau gweithredu i’r dyfodol wedi eu cynnwys o fewn y Cynllun Datblygu Lleol.
- Mae materion hinsawdd ac ecolegol wedi cael eu hystyried bob amser o fewn y Cynllun Datblygu Lleol, ond mewn ffordd gytbwys i ystyried anghenion heddiw heb gyfaddawdu’r dyfodol.
- Mae’r Cynllun Datblygu Lleol angen cydymffurfio â mwy nag un darn o ddeddfwriaeth genedlaethol i faterion megis llifogydd ac ynni. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys paneli solar a gwefru EV mewn rhai amgylchiadau.
- Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn cael ei ystyried mewn mwy nag un agwedd o’r Cynllun Datblygu Lleol.
- Mae cadwraeth, tirwedd gyfeillgar i fywyd gwyllt, draenio cynaliadwy, amddiffyn coed, defnydd o ynni adnewyddadwy a pharcio i feiciau yn cael ei ystyried mewn datblygiadau newydd.

Atgoffodd AL y cynghorwyr bod cyfarfodydd o’r grŵp cynllunio strategol yn agored i holl aelodau a byddai’n eu hannog i fynychu.

Eglurodd BMX:

- Mae’r Cynllun Datblygu Lleol newydd yn fersiwn drafft ar hyn o bryd ac mae polisïau o fewn yn anodd eu drafftio oherwydd y cymhlethdodau.
- Mae newidiadau wedi cael eu gwneud i PPC Pennod 6 Creu Lleoedd Hynod a Naturiol a Lles - i fynd i’r afael â’r argyfwng natur o ran bioamrywiaeth.
- Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cydymffurfio gyda mwy nag un polisi gan gynnwys Dyfodol Cymru, Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Dyfodol Cymru) a Pholisi Cynllunio Cymru.
- Cynllun Datblygu Lleol 2006-2021 yn cyfrannu tuag at newid hinsawdd wrth gyfarwyddo cyfeiriad i’r lleoliadau mwy cynaliadwy.

Diolchodd BM i BMX ac AL am eu cyflwyniadau manwl a llawn gwybodaeth.

Gofynnodd PS am y nodyn cyngor technegol (TAN) 15: polisi risg llifogydd a datblygiad o ran ardaloedd a amddiffynnir. Dywedodd AL y bydd adolygiad TAN15 yn cael ei gyhoeddi yn y flwyddyn newydd ond nid oes dyddiadau penodol ar gyfer cyhoeddi hyd yma. Gofynnodd JH os byddai Cynllun Datblygu Lleol newydd yn gallu gorchymyn cwmnïau adeiladu yn ychwanegu ynni adnewyddadwy i adeiladau newydd neu yn defnyddio cynnyrch megis dreifiau hydraidd. Eglurodd BM na all y Cynllun Datblygu Lleol fynd tu hwnt i reoliadau adeiladu "arferol" cyfredol ond mae polisïau sydd yn edrych ar adeilad carbon isel. Gallai diweddariadau i reoliadau adeiladu orfodi adeiladu cyfeillgar i'r amgylchedd a bydd y rhain yn cael eu hadolygu fel maent yn cael eu cynhyrchu. Gofynnodd JE os oedd unrhyw reoliadau ynghylch safleoedd ynni solar ar laswelltiroedd gwerthfawr. Eglurodd BMX bod unrhyw gais ynni adnewyddadwy yn gorfod rhoi ystyriaeth i bolisïau lleol a dylai'r Cynllun Datblygu Lleol newydd gryfhau'r sefyllfa honno. Canmolodd y MH yr adroddiad diddorol iawn a bod y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn canolbwyntio fwy yn amgylcheddol. Gofynnodd MH os allwn ni sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn rhoi digon o anogaeth a/neu orfodaeth ynghylch gofynion amgylcheddol pan fydd yn cael ei adolygu eto yn 2033. Dywedodd AL y bydd y CDLl yn cael ei fonitro, a bod adroddiadau blynyddol yn cael eu cynhyrchu, ond eglurodd ei fod yn anodd casglu'r data sy'n ofynnol.
Diolchodd HVE i AL a BMX am gyflwyniad rhagorol a'i fod yn wych bod ymrwymiad y Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol yn cael ei roi yn y CDLl. Gofynnodd HVE os allai'r CDLl edrych ar allyriadau o drafnidiaeth, llygredd afonydd, a hyblygrwydd y stoc adeiladu. Gofynnodd y grŵp os fydd dogfennaeth cynllunio ar gyfer y blaned yn cael ei ystyried o fewn hwn www.foodfortheplanet.org.uk/councillors. Eglurodd AL bod y rheoliadau adeiladu yn cyflenwi nifer o agweddau ac efallai byddai'n cynnwys addasrwydd, ond mae gan y rheoliadau gyfyngiadau ond hefyd mae rheoliadau amgylcheddol eraill y mae angen eu cydymffurfio â hwy. Bydd y mwyafrif o ddatblygiadau yn ystyried mynediad at drafnidiaeth gynaliadwy a llwybrau troed ayyb. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda gwaith rheoli maetholyn sydd yn digwydd ar Afon Dyfrdwy, ac yn helpu cefnogi cynllun rheoli maetholyn. Mae angen rhoi ystyriaeth i Gynllunio ar gyfer y Blaned ac nid oes modd rhoi ateb penodol hyd yma.

BM - Diolchodd i Bethan ac Angela am eu hamser.

## 5. Seilwaith Trafnidiaeth Cerbydau Trydan (Paul Jackson a Swyddogion Cefnogi)

Cyflwynodd PJ y pwnc gyda MG (Swyddog Symudedd y Fflyd). Fel aelod newydd o staff gyda’r Awdurdod Lleol mae’n credu bod angen cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod dull strategol a draws y wlad i sicrhau bod cysondeb i seilwaith cerbydau trydan.

Eglurodd MG y seilwaith Cerbydau Trydan presennol yn Sir Ddinbych -

- Rydym wedi cynyddu o 7 pwynt gwefru i 34, a bellach gallwn wefru 69 cerbyd fflyd. Mae 74 o gerbydau trydan yn y fflyd gorfforaethol.
- Mae gennym 40 pwynt gwefru cyhoeddus a all wefru 84 cerbyd (mae’r rhain ar gael ar gyfer cerbydau fflyd CSDd hefyd).
- Mae’r pwyntiau gwefru cyhoeddus wedi cael eu hariannu gan grant ac maent yn darparu refeniw sydd yn caniatáu i bwyntiau gwefru dalu am eu hunain, sydd yn cyfrannu tuag at ein cerbydau trydan ein hunain.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Awdurdodau Lleol edrych ar safleoedd mewn lleoliadau sy'n fwy anghysbell. Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar leoliadau meysydd parcio o fewn pellter cerdded i dai teras.
- Rydym wedi bod yn llwyddiannus gyda 700,000 o filltiroedd o yrru ar 124 000 kwh 434,000 milltir o allyriadau sero.
- Mae ein prosiect wedi bod mor llwyddiannus eu bod wedi gofyn i ni yn uniongyrchol i ddefnyddio cyllid grant i roi mwy o bwyntiau gwefru cerbydau trydan.
- Mae cyfyngiadau’r Grid o’r rhwydwaith trydan yn golygu nad yw rhai lleoliadau yn gydnaws gyda gwefru cerbydau trydan.

Dywedodd BM nad oedd yn hawdd dod â phwyntiau gwefru trydan ar draws y sir, ond ein bod yn awdurdod lleol sydd yn arwain ar y camau hyn. Mae cael pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn helpu annog ymwelwyr i leoliadau fel y Rhyl a hefyd yn helpu

preswylwyr yn y tai teras cyfagos. Cododd MH y mater o broblemau o ran costau gyda gwefru cerbydau trydan gartref. Mae'r pwyntiau gwefru cerbydau mewn mannau cyhoeddus yn ein caniatáu i ystyried yr ymddygiad o ran sut mae mannau yn cael eu defnyddio. Gallai rhywun ymweld â'r Rhyl, gwefru eu cerbyd am 4/5 awr tra eu bod yn defnyddio cyfleusterau eraill yn y dref.
Awgrymodd DJ y dylid cael trwyddedau i bobl leol sydd yn defnyddio'r pwyntiau gwefru dros nos.
Soniodd MG bod pwyntiau gwefru trydan dros nos wedi'i osod ar yr un gost a gwefru o gartref, dim ond ar bwyntiau gwefru cyflym mae cost premiwm.
Amlygodd MH bod cwmni wedi cysylltu â ni yn dymuno rhoi "gyli gwefru" a fyddai'n caniatau pobl sydd heb barcio oddi ar y stryd i gysylltu'r wifren gwefru ar draws llwybrau i'w ceir. Roedd gan TT, JE, GW a MH bryderon am y straen ar rwydweithiau trydan. Byddai nifer o dai yn gwefru cerbydau trydan i gyd ar yr un pryd angen fwy o is-orsafoedd. Felly, roedd wedi'i nodi na fyddem gyda diddordeb mewn astudiaeth achos gyli gwefru ar hyn o bryd. Codwyd mater arall na fyddai pawb yn gallu parcio yn uniongyrchol tu allan eu cartrefi ac yn gallu defnyddio eu gyli eu hunain. Cytunodd PJ ac awgrymodd bod Llywodraeth Cymru angen arwain ar faterion gyda chyflenwad trydan ar gyfer gwefru Cerbydau Trydan. Cyfeiriodd HVE at e-bost gan Lee Water AS a nododd nad oedd targedau na dyletswyddau penodol i awdurdodau lleol i ddarparu seilwaith cerbyd trydan.

Awgrymodd MG y byddai symud pyst lamp yn ôl at gefn y llwybrau yn gallu goresgyn y broblem o wifrau gwefru ar draws y palmentydd. Hefyd tynnodd MG sylw y gall rhan fwyaf o eiddo ymdopi gyda gwefru Cerbydau Trydan oherwydd gallent reoli eu llwyth eu hunain, ond gall gynyddu faint o amser mae'n cymryd i wefru.
Dywedodd BF bod y drafodaeth wedi bod yn ddiddorol iawn a bod llawer o syniadau da o ran datrysiadau i'r problemau hyn. Roedd BF yn falch o rybudd PJ gyda'r astudiaeth dichonolrwydd gyli gwefru. Eglurodd BM & HVE fod llythyr wedi'i anfon at Lywodraeth Cymru ar y mater hwn ac ymateb a dderbynnir a fydd yn cael ei ddosbarthu gyda'r cofnodion.

Diolchodd BM i PJ a MG am eu hamser.

***Cam Gweithredu – Aileen Charteris i ddosbarthu llythyr gan Lee Waters AS i'r grŵp.***

***Cam Gweithredu - Paul Jackson i ateb cwmni 'Charge Gully'.***

## 6. Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Unrhyw Fater Arall

Awgrymodd y Cynghorydd Martyn Hogg ar eitem y rhaglen ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd yng Nghymru, gan fod hyn yn cael ei drafod gan grwpiau lleol megis Fforwm Dalgylch Clwyd. Gofynnodd TT i gael ei gynnwys pan fydd hyn yn cael ei drafod gan ei fod yn gysylltiedig â rheoli llifogydd.

Ffocws Cyfarfod y Dyfodol -

11 Mawrth

10 Gorffennaf

13 Tachwedd

Diolchodd BM i bawb am eu presenoldeb a chydnabod ei fod yn bwnc sy'n newid yn gyflym.

***Cam* Gweithredu – LWJ i gadarnhau dyddiadau yn nyddiaduron pobl.**

Pynciau ar gyfer y cyfarfod nesaf:

| **Dyddiad y Cyfarfod** | **Eitemau ar y Rhaglen** | **Mewnbwn Swyddogion** |
|---|---|---|
| **2023/24** | | |
| 11 Mawrth 2024 | • Adolygu ac adnewyddu Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2023/24<br>    ○ Adolygu papur a dogfen ddrafft y Strategaeth a adnewyddwyd i Bwyllgor Craffu Perfformiad | 1. Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd CSDd |
| | • Insiwleiddio cartrefi – sut mae CSDd yn gwneud yr hyn a all i annog a chefnogi gwaith insiwleiddio cartrefi yn y Sir (yn berthnasol yn ein hadeiladau ein hunain hefyd) | 2. Tîm Prosiect Arbed Ynni Domestig Cyngor Sir y Fflint (gweinyddu ECO4 ar ran y Cyngor), Tai CSDd |
| | • Cefnogi’r sector amaethyddol yn Sir Ddinbych gyda’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd arfaethedig yng Nghymru | 3. Swyddog Adnoddau Naturiol a Ffermio yr AHNE, Siaradwr Allanol Llywodraeth Cymru |

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitemau ar y Rhaglen | Mewnbwn Swyddogion |
|---|---|---|
| | • Clywed gan ymchwiliad cyhoeddus Cyngor Sir y Fflint i ddatgarboneiddio Cronfa Bensiynau Clwyd [os yw’r ymchwiliad wedi dod i gasgliad a’r canlyniadau ar gael] | 4. Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd CSyFf a / neu Gadeirydd Pwyllgor Hinsawdd CSyFf |